

Tynnu blew'n drydanol

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol *a *SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** **Mae'r safon yma ar gyfer tynnu blew nad oes mo'u heisiau mewn modd diogel gan ddefnyddio technegau tynnu trydanol. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau diweddaraf a chyfarwyddyd am arfer orau. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

Y prif ddeilliannau yw:

1. Darparu triniaeth tynnu blew galfanig i gael gwared o flew nad oes mo'u heisiau
2. Darparu triniaeth tynnu blew trydwymo tonfedd fer i gael gwared o flew nad oes mo'u heisiau
3. Darparu triniaeth dynnu blew gymysg i gael gwared o flew nad oes mo'u heisiau

Tynnu blew'n drydanol

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn
 2. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau
 3. trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon am ei gorff a'i groen, ei ddisgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno er mwyn hysbysu'r cynllun triniaeth tynnu blew'n drydanol, i gynnwys:
 - 3.1 hanes triniaethau
 - 3.2 dewisiadau triniaeth amgen
 4. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, ei fod wedi deall y drinaeth arfaethedig i dynnu blew'n drydanol, i gynnwys:
 - 4.1 gwrth-weithredoedd
 - 4.2 **adweithiau niweidiol**
 - 4.3 **dull tynnu blew'n drydanol**
 - 4.4 teimlad corfforol
 5. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer triniaeth tynnu blew'n drydanol yn unol â gofynion cyfundrefnol ac yswiriant
 6. paratoi **man triniaeth yr unigolyn** yn unol â'r **protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol**
 7. taflu goleuni ar fan triniaeth yr unigolyn a'i chwyddo
 8. dewis cynnrych paratoi glendid effeithiol i gwrdd ag anghenion yr unigolyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
 9. gwneud dadansoddiad o'r blew a'r croen, i gynnwys:
 - 9.1 **dosbarthiad o'r blew**
 - 9.2 **math o flew**

Tynnu blew'n drydanol

9.3 patrymau t*wf y blew*

9.4 dosbarthiad y croen

9.5 math o groen

9.6 cyflwr y croen

10. paratoi'r cyfarpar yn unol â'r protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol

11. dewis y math o **nodwydd** a'i maint, ei llwytho mewn modd aseptig yn unol â'r protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol

12. gosod y dull tynnu blew'n drydanol, ei ddwysedd a'i barhad yn unol â'r protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol, i gynnwys:

12.1 cynnal prawf ymchwilio i benderfynu goddefiad yr unigolyn a chadw golwg ar ymateb y croen/gwrth weithredoedd

13. dilyn y protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol er mwyn sicrhau cael gwared o'r blew mewn modd diogel ac effeithiol i gynnwys:

13.1 dal y croen â llaw

13.2 addasu technegau ar gyfer man triniaeth yr unigolyn

14. monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y driniaeth tynnu blew'n drydanol

15. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol

16. cwblhau'r driniaeth yn unol â'r protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol

17. cwblhau cofnodion triniaeth yr unigolyn a'u cadw'n unol â deddfwriaeth data

18. defnyddio ymarfer adfyfyriol er mwyn gwerthuso'r driniaeth tynnu blew'n drydanol a gweithredu'n briodol

19. rhoi **cyfarwyddiadau** a chynghor i'r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth

20. cofnodi canlyniad y driniaeth tynnu blew'n drydanol a'r gwerthusiad ohoni

Tynnu blew'n drydanol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn darparu triniaethau therapi trydanol i'r wyneb a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu
2. pam bod rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:
 - 2.1 y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu'r awdurdod lleol i chi eich hun a'ch adeilad
3. pwysigrwydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, polisiâu gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am arfer orau ddiweddaraf
4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma
5. sut gall hanes triniaethau ac ymyriadau argroenol effeithio ar y canlynol:
 - 5.1 cylch tŵf y blew
 - 5.2 y mathau o flew, eu priodoleddau a'u dosbarthiad
6. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r driniaeth harddwch, i gynnwys:
 - 6.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis a chyfeirio meddygol
7. pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd amheus ac anafiadau ar y croen, a chyfeirio at rywun proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd
8. diben, triniaethau tynnu blew'n drydanol i'r wyneb y defnydd ohonynt a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r canlynol:
 - 8.1 hanes meddygol o'r gorffennol a chyfredol
 - 8.2 ffactorau perthnasol yn ymwneud â'r ffordd o fyw
 - 8.3 meddyginiaeth a chyflyrau meddygol

Tynnu blew'n drydanol

8.4 disgwyliadau'r unigolyn

9. sut gall geneteg a chyflyrau systemaidd effeithio ar y cynllun triniaeth a'r canlyniadau, i gynnwys:

9.1 meddyginiaeth a chyflyrau meddygol

9.2 anghydbwyseddau hormonaidd

9.3 hanes triniaethau

10. y mathau o reolaeth poen a risgiau cysylltiedig

11. yr adweithiau niweidiol sy'n gysylltiedig gyda thriniaeth drydanol i'r wyneb a sut i ymateb

12. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth tynnu blew'n drydanol

13. pam bod hi'n bwysig trafod ac adnabod amcanion, pryderon disgwyliadau yr unigolyn a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun triniaeth tynnu blew'n drydanol:

13.1 teimlad corfforol

14. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau harddwch i blant dan oed ac oedolion bregus

15. y strwythurau talu a dewisiadau ar gyfer triniaeth

16. y gofynion deddfwriaethol a digollediad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi ar gyfer triniaeth tynnu blew'n drydanol

17. cadw, trin, defnyddio a chael gwared o gyfarpar tynnu blew'n drydanol a nodwyddiau diheintiedig a ddefnyddir unwaith, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gofynion deddfwriaethol

18. pwysigrwydd cadw at y protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol

19. pwysigrwydd chwyddo a pharatoi man triniaeth yr unigolyn a thaflu goleuni arno

20. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys:

20.1 pwysigrwydd sicrhau bod man triniaeth yr unigolyn cael cael ei adael yn lan, yn rhydd o olew ac yn sych, cyn triniaeth tynnu blew'n drydanol

Tynnu blew'n drydanol

21. y gwahanol fathau o nodwyddau sydd ar gael a'u maint
22. y mathau o gyfarpar tynnu blew'n drydanol, i gynnwys:
 - 22.1 egwyddorion ac effeithiau thermolysis/trydwymo tonfedd fer (cerrynt eiledol) galfanig (cerrynt union) a thechnegau cymysgu
23. egwyddorion y cerrynt eilredol fel tonfedd fer, amledd radio ac amledd uchel y defnydd ohonynt a'u mantais
24. risg danfon cerrynt union drwy'r corff gydag unigolyn sydd â chyflyrau meddygol sylfaenol
25. sut i baratoi'r cyfarpar yn unol â'r protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol
26. sut i ddewis a llwytho'r nodwydd mewn modd aseptig I gael gwared o flew nad oes mo'u hangen mewn modd diogel ac effeithiol
27. yr amrywiaeth o dechnegau a ddefnyddir i gael gwared o flew nad oes mo'u hangen, i gynnwys:
 - 27.1 effeithiau gwahanol gerynt ar y croen
28. sut i gynnal y croen â llaw er mwyn sicrhau canlyniadau triniaeth effeithiol
29. y rhesymau dros weithio'n systematig gyda gofod cywir yn cael ei gadw ar draws y rhan o'r unigolyn sydd i'w thrin
30. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth
 31. sut i gael gwared o weddillion croen o'r nodwydd yn ystod y driniaeth, pan fod hynny'n angenrheidiol a phryd dylid cael un newydd
32. y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol gyda chydysyniad o fan triniaeth yr unigolyn, a'u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, a'r rhai deddfwriaethol, yswiriant a chfundrefnol
33. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion yr unigolyn am y driniaeth tynnu blew'n drydanol
34. canlyniadau disgwylidiedig technegau tynnu blew'n drydanol
35. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer triniaethau yn y dyfodol

Tynnu blew'n drydanol

36. pwysigrwydd cofnod canlyniad y driniaeth tynnu blew'n drydanol a'r gwerthusiad ohoni

37. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth tynnu blew'n drydanol

Cwmpas/Ystod

Adweithiau niweidiol

1. gorwaedu
2. chwydd gwyn gormodol
3. gwelwi
4. gwaedu
5. cleisio
6. alergedd

Dull tynnu blew'n drydanol

1. thermolysis/trydwymo tonfedd fer (cerrynt eiledol)
2. galfanig (cerrynt union)
3. cymysgedd

Man triniaeth yr unigolyn

1. wyneb
2. corff

Protocol triniaeth tynnu blew'n drydanol

1. amgylchedd waith
- iechyd a diogelwch
- atal a rheoli haint
- cynllun triniaeth
- cydsyniad gwybodus
6. rheoli data
- canlyniadau profion
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- archwilio ac atebolrwydd
10. cyfarwyddiadau a chyngor

Tynnu blew'n drydanol

11. cynaliadwyedd
12. rheoli gwastraff
13. ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth
14. ymarfer adfyfyriol

*
*

*
*

*
*

*
*

Dosbarthiad y blew

1. syth
2. cyrliog
3. cyrliog iawn

Math o flew

1. corflew
2. manflew

Dosbarthiad y croen

1. Graddfa Fitzpatrick
2. Phenoteip a genoteip
3. Graddfa Lancer

Math o groen

1. sych
2. olewog
3. cyfuniad
4. cytbwys

Cyflwr y croen

1. hydwythedd llac

Tynnu blew'n drydanol

2. gorliwio a thanliwio
3. sensiteiddiedig
4. sensitif
5. wedi sychu
6. bregus
7. fasgwlaidd

Nodwydd

1. un darn
2. dau ddarn
3. wedi ynysu
4. aur
5. dur gwrthstaen

*
*

Cyfarwyddiadau

1. hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr unigolyn a'r ymarferydd
2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y driniaeth
3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig
4. triniaethau yn y dyfodol

Anatomeg a Ffisioleg

*
*

1. strwythur a swyddogaeth systemau'r corff a'u cyd- ddibyniaeth ar ei gilydd
2. gwrtharwyddion cymharol a llwyr a phatholegau cysylltiedig
3. strwythur a swyddogaeth blew a'r ffactorau sy'n effeithio ar gylch tŵf y blew

Geirfa

Gwrtharwydd llwyr

Mae gwrtharwydd llwyr yn gyflwr sy'n rhwystro'r gwasanaeth rhag cael ei gyflawni ac a all fod angen cael ei gyfeirio.

Adwaith niweidiol

Adwaith niweidiol yw adwaith 'annisgwyl' neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. llewygu

Anatomeg a Ffisioleg

Y ffordd mae'r systemau sgerbydol, cyhyrol, cylchredol, lymffatig, resbiradol, ysgarthol, treuliol, endocrinaidd a nerfol yn rhyngweithio gyda'i gilydd a sut mae nhw'n effeithio ar yr unigolyn, y gwasanaeth a'r canlyniadau

Gwrth Weithred

Gwrth weithred yw adwaith 'ddisgwylidig endocrinaidd neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. erythema

Ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth

Mae ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau gyfredol, ddilys a pherthnasol sydd ar gael

Cymorth Cyntaf

Gall cymorth cyntaf gyfeirio at gymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith neu ei gyffelyb neu ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddyliol.

Protocol

Protocol yw gweithdrefn safonol er mwyn sicrhau arfer orau a chydymffurfiaid pan yn darparu gwasanaethau e.e. dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

Gwrthawrydd cymharol

Gwrtharwydd cymharol yw cyflwr sy'n gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth a/neu os oes angen addasiadau.

Cyflwr croen sensitif

Cynnydd mewn adweithedd capilaraidd genetig a newid yn y swyddogaeth rhwstr gan arwain at freuder epidermal cynhenid.

Cyflwr croen sensiteiddiedig

Mae cyflwr croen sensiteiddiedig yn digwydd o ganlyniad i ffactorau amgylcheddol ac sy'n ymwneud â'r ffordd o fyw sydd naill ai'n cynyddu cytocinau llidiol a modlyddion neu atal y rhwstr croen

Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBRBNST1, SKAHDBRBNS1, SKABBR1, SKABBR2, SKABN1, SKABN2, SKABN3, SKAB1, SKAB2, SKAB3, SKAB4, SKAB5, SKAB6, SKAB7, SKAB8, SKAB9, SKAB11, SKAB12, SKABS1, SKABS2, SKABS3, SKABS4, SKABS5, SKABS6,

SKAB10



Tynnu blew'n drydanol

SKABS7, SKAHDBMN1, SKAHDBRBNS2, SKAHDBRBNS3,
SKAHDBRBNST2, SKAHDBRBNST3, SKAHDBRBNT1

Tynnu blew'n drydanol

Datblygwyd gan

SkillsActive

Dyddiad cymeradwyo

30 Maw 2021

Dyddiad Adolygu Dangosol

31 Maw 2024

Dilysrwydd

Ar hyn o bryd

Statws

Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol

SkillsActive

RCU gwreiddiol

SKABT26

Galwedigaethau perthnasol

Therapydd Harddwch

Cyfres/Set

Therapi Harddwch

Geiriau Allweddol

tynnu blew'n drydanol, dull o gael gwared o flew,
 thermolysis/trydwymo tonfedd fer (cerrynt eiledol) galfanig
 (cerrynt union) cymysgedd